
# Y darn arian coll

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Gofynnodd rhai o arweinwyr y Deml i Iesu pam ei fod o'n gyfeillgar gyda phobl oedd ddim yn dilyn rheolau Duw. Adroddodd Iesu'r stori hon sydd ag ystyr iddi.



"Roedd gan wraig ddeg darn o arian oedd yn werthfawr iawn iddi. Un diwrnod gwelodd fod un o'r darnau arian wedi mynd ar goll.




Cyfrodd nhw'n ofalus. 1,2,3,4,5,6,7,8,9,... 'Ble ar y ddaear ydw i wedi colli un o fy narnau arian gwerthfawr?' dyfalodd.




Edrychodd tu mewn i gelfi ac oddi tanynt ond ni allai ddod o hyd i'r darn arian coll yn unlle.



Yna aeth i nôl ei hysgub a sgubodd loriau'r tŷ i gyd ond ni allai ddod o hyd i'r darn arian coll, gwerthfawr.



Roedd y wraig yn ddigalon. Cynheuodd gannwyll a chwiliodd yn ddyfal am ei darn arian coll, gwerthfawr ym mhob twll a chornel nes yn y diwedd daeth o hyd iddo.



Dywedodd y newyddion da wrth ei ffrindiau! 'Rydw i wedi dod o hyd i'r darn arian fu ar goll,' meddai'n llawen. Roedd pawb wrth eu bodd ac fe fuon nhw'n dathlu."



Adroddodd Iesu'r ddameg hon i ddangos gymaint mae Duw yn caru pobl sydd mor bell oddi wrtho. "Mae'r angylion yn y nefoedd yn dathlu pan mae hyd yn oed un person sydd ar goll yn dod i ymddiried yn Nuw," meddai Iesu.